# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLAWN

Mae geiriad y ddogfen hon yn adlewyrchu gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredin (GDPR), a ddaeth i rym yn y DU ar 25 Mai 2018.

## i aelodau a buddiolwyr Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth CBST:** | Adnoddau |
| **Maes Gwaith** | Pensiynau |
| **Manylion Cyswllt:** | Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>Y Ganolfan Ddinesig<br>Pont-y-pŵl<br>Torfaen<br>NP4 6YB<br>(01495) 766266<br>pensions@torfaen.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Hysbysiad Preifatrwydd Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) |

**Rheolwr Data:**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
d/o Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Os hoffech chi fynegi pryder ynglŷn â thrin eich data personol, cysylltwch â'r **Swyddog Diogelu Data** gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Ffôn: 01495 762200**
**E-bost: dpa@torfaen.gov.uk**

Hysbysiad yw hwn ar gyfer aelodau a buddiolwyr Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) (y **"Gronfa"**). Fe'i paratowyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (yr "**Awdurdod Gweinyddu**", neu "**ni**") yn rhinwedd ei rôl fel yr awdurdod sy'n gweinyddu'r Gronfa. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disgrifio sut rydym yn casglu ac yn defnyddio data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn ar gael hefyd trwy'r ddolen ganlynol:

https://cronfabensiwngwent.co.uk/ffurflenni-a-chyhoeddiadau/privacy-notice/

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd arall neu bolisi prosesu teg y gallwn ei ddarparu ar adegau penodol pan fyddwn yn casglu neu'n prosesu data personol amdanoch fel eich bod yn gwbl ymwybodol o sut a pham yr ydym yn defnyddio'ch data. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disodli unrhyw hysbysiad preifatrwydd cyffredinol y gallem fod wedi'i gyhoeddi o'r blaen ac mae'n ategu unrhyw hysbysiadau a pholisïau preifatrwydd eraill a gyhoeddwn sy'n benodol i weithgareddau casglu / prosesu data penodol.

**Pam rydyn ni'n darparu'r hysbysiad hwn i chi**

Fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, rydym yn cadw gwybodaeth benodol amdanoch ac y gellir eich adnabod ohoni ("**data personol**") a ddefnyddiwn i weinyddu'r Gronfa ac i dalu buddion ohoni. Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni roi gwybodaeth benodol i chi am y data personol sydd gennym amdanoch, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas ag ef a'r mesurau diogelu sydd ar waith i'w ddiogelu. Mae'r hysbysiad hwn wedi'i gynllunio i roi'r wybodaeth honno i chi.

## Y rhan dechnegol

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn dal data personol amdanoch yn rhinwedd ei rôl fel rheolydd data i sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â phob mater yn ymwneud â'r Gronfa, yn cynnwys ei gweinyddu a'i rheoli. Mae hyn yn cynnwys yr angen i brosesu'ch data er mwyn cysylltu â chi, i gyfrifo, sicrhau a thalu eich buddion, i wneud gwaith modelu ystadegol ac ariannol ac at ddibenion cyfeirio (er enghraifft, pan fyddwn yn asesu faint o arian sydd ei angen i ddarparu buddion yr aelodau a sut y dylai'r arian hwnnw gael ei fuddsoddi), ac i reoli rhwymedigaethau a gweinyddu'r Gronfa'n gyffredinol. Caiff rhagor o wybodaeth am sut yr ydym yn defnyddio'ch data personol ei darparu isod.

Y sail gyfreithiol ar gyfer ein defnydd o'ch data personol fel arfer fydd bod angen i ni brosesu eich data personol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, gan gynnwys, er enghraifft, ein rhwymedigaethau o dan y rheoliadau dangosfyrddau pensiynau. Pan nad yw'r sail gyfreithiol honno'n berthnasol, y sail gyfreithiol ar gyfer ein defnydd o'ch data personol fydd un neu fwy o'r canlynol:

a) mae angen inni brosesu'ch data personol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol yn ein rôl fel corff cyhoeddus; a/neu
b) mae angen inni brosesu'ch data personol i'r dibenion cyfreithiol o weinyddu a rheoli'r Gronfa a'r rhwymedigaethau oddi tani, cyfrifo, sicrhau a thalu buddion a chyflawni'n rhwymedigaethau ac arfer unrhyw hawliau, dyletswyddau a disgresiwn sydd gan yr Awdurdod Gweinyddu mewn perthynas â'r Gronfa; a/neu
c) oherwydd bod angen inni brosesu'ch data personol i gyflawni'n rhwymedigaethau cytundebol ichi mewn perthynas â'r Gronfa (er enghraifft, o dan gytundeb y byddwch chi'n talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i'r Gronfa), neu i gymryd camau, ar eich cais chi, cyn ymrwymo i gontract.

Sylwer, pan fyddwn yn nodi bod ein prosesu o'ch data personol yn angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, neu i ni gymryd camau, ar eich cais, i ymrwymo i gontract cyflogaeth gyda chi o bosibl, neu i'w gyflawni, a'ch bod yn dewis peidio â darparu'r data personol perthnasol i ni,  Efallai na fyddwn yn gallu ymrwymo neu barhau â'n contract gyda chi.

## Pa ddata personol ydyn ni'n ei ddal, a sut rydyn ni'n ei gael

Mae'r mathau o ddata personol rydyn ni'n ei ddal ac yn ei brosesu amdanoch yn gallu cynnwys:

- Manylion cyswllt, gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost.
- Manylion adnabod, yn cynnwys dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol, rhif aelodaeth cyflogeion ac, os ydych chi wedi defnyddio dangosfwrdd pensiynau i gyrchu gwybodaeth am eich pensiwn, "adnabyddwr pensiynau" (PEI), sy'n cael ei ddefnyddio i gadarnhau cydweddiad a nodi eich buddion penodol yn y Gronfa at ddibenion dangos gwybodaeth trwy ddangosfwrdd.
- Gwybodaeth sy'n cael ei defnyddio i gyfrifo ac asesu cymhwyster am fuddion, er

enghraifft, hyd y cyfnod o wasanaeth neu aelodaeth a gwybodaeth am eich cyflog.

- Gwybodaeth ariannol sy'n berthnasol wrth gyfrifo neu dalu buddion, er enghraifft, manylion cyfrif banc a threth.
- Gwybodaeth am eich teulu, dibynyddion neu amgylchiadau personol, er enghraifft, statws priodasol a gwybodaeth berthnasol i ddosbarthu a dyrannu'r buddion sy'n daladwy ar ôl marwolaeth.
- Gwybodaeth am eich iechyd, er enghraifft, i asesu cymhwyster am fuddion sy'n daladwy pan fydd iechyd rhywun yn wael, neu lle mae'ch iechyd yn berthnasol i hawliad am fuddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r Gronfa.
- Gwybodaeth am euogfarn droseddol os yw hynny wedi golygu bod arnoch chi arian i'ch cyflogwr neu'r Gronfa ac y gallai'r cyflogwr neu'r Gronfa gael eu had-dalu o'ch buddion.
- Gwybodaeth am unrhyw aelodaeth flaenorol o gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill ac awdurdodau gweinyddu CPLlL eraill, gan gynnwys dyddiad gadael ac a yw'r cynllun/awdurdod blaenorol wedi asesu a ydych yn gymwys ar gyfer gwarchodaeth tanategu (gwelwch "Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth" isod).

Rydym yn cael peth o'r data personol hwn yn uniongyrchol oddi wrthych chi. Gallwn hefyd gael data (er enghraifft, gwybodaeth am eich cyflog) oddi wrth eich cyflogwr/wyr cyfredol neu flaenorol neu gwmnïau a'u holynodd mewn busnes, oddi wrth aelod o'r Gronfa (lle'r ydych chi neu lle gallech fod yn fuddiolwr o dan y Gronfa o ganlyniad i aelodaeth y person hwnnw o'r Gronfa) ac o amrywiaeth o ffynonellau eraill yn cynnwys cronfeydd data cyhoeddus (megis y Gofrestr Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau), dangosfwrdd pensiynau (pan fyddwch yn ei ddefnyddio i gyrchu gwybodaeth am eich pensiwn), ein cynghorwyr neu gyrff llywodraeth neu gyrff rheoleiddio, yn cynnwys y rheini ar y rhestr o sefydliadau y gallwn rannu'ch data personol gyda nhw, sydd wedi'i nodi isod.

Lle'r ydym yn cael gwybodaeth am rai "categorïau arbennig" o ddata neilltuol o sensitif, megis gwybodaeth am iechyd, mae mesurau diogelu ychwanegol mewn grym o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Dim ond gyda'ch caniatâd chi y byddwn yn prosesu'ch data personol sy'n dod o fewn un o'r categorïau arbennig, oni bai ein bod yn gallu prosesu'r data hwn yn gyfreithlon am reswm arall a ganiateir gan y ddeddfwriaeth honno. Mae gennych yr hawl i dynnu'ch caniatâd i'r prosesu yn ôl ar unrhyw adeg drwy hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu'n ysgrifenedig. Fodd bynnag, os na roddwch eich caniatâd, neu os byddwch yn ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach, efallai na fydd yr Awdurdod Gweinyddu yn gallu prosesu'r wybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau wedi'u seilio arni, yn cynnwys penderfyniadau am dalu eich buddion.

Lle'r ydych wedi darparu data personol inni am unigolion eraill, megis aelodau o'r teulu, dibynyddion neu fuddiolwyr posibl o dan y Gronfa, cofiwch wneud yn siŵr fod yr unigolion hynny'n ymwybodol o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad hwn.

## Sut byddwn ni'n defnyddio'ch data personol

Byddwn yn defnyddio'r data hwn i ddelio â'r holl faterion yn ymwneud â'r Gronfa, yn cynnwys ei gweinyddu a'i rheoli. Gall hyn gynnwys prosesu eich data personol at bob un neu unrhyw rai o'r dibenion canlynol:

- I gysylltu â chi.
- I asesu cymhwyster am fuddion, eu cyfrifo a'u darparu ichi (ac, os ydych yn aelod o'r Gronfa, i'ch buddiolwyr ar eich marwolaeth).
- I nodi eich opsiynau posibl neu wirioneddol o ran buddion, a ble mae hynny'n berthnasol, gweithredu'r opsiynau hynny.

- I ganiatáu ffyrdd amgen o gyflenwi'ch buddion, er enghraifft, drwy ddefnyddio cynnyrch yswiriant a throsglwyddiadau i drefniadau pensiwn eraill neu drwy uno â threfniadau pensiwn eraill.
- I hwyluso'ch mynediad at wybodaeth am eich pensiynau trwy dangosfwrdd pensiynau.
- At ddibenion modelu ystadegol ac ariannol a dibenion cyfeirio (er enghraifft, pan fyddwn yn asesu faint o arian sydd ei angen i ddarparu buddion yr aelodau a sut y dylai'r arian hwnnw gael ei fuddsoddi).
- I asesu ac, os yw'n briodol, gweithredu cais a wnewch i drosglwyddo eich buddion allan o'r Gronfa.
- I gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa.
- I ymdrin ag ymholiadau gan aelodau a buddiolwyr eraill ac i ymateb i unrhyw anghydfod gwirioneddol neu bosibl ynglŷn â'r Gronfa.
- Rheolaeth rhwymedigaethau'r Gronfa, yn cynnwys ymrwymo i drefniadau yswiriant a dewis buddsoddiadau'r Gronfa.
- Mewn perthynas â gwerthu, uno neu ad-drefnu corfforaethol neu drosglwyddiad unrhyw fusnes neu drosglwyddo busnes o eiddo'r cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa a chwmnïau eu grŵp
- I nodi a ydych chi'n gymwys ar gyfer diogelwch tanategu. Am fwy o wybodaeth gwelwch dudalen Aelodau'r CPLIL: https://www.lgpsmember.org/mccloud-remedy/

**Sefydliadau y byddwn efallai yn rhannu'ch data personol gyda nhw**

O bryd i'w gilydd byddwn yn rhannu'ch data personol gyda chynghorwyr a darparwyr gwasanaethau fel y gallant ein helpu i gyflawni'n dyletswyddau, ein hawliau a'n disgresiwn mewn perthynas â'r Gronfa. Bydd rhai o'r sefydliadau hyn yn prosesu'ch data personol ar ein rhan ac yn unol â'n cyfarwyddiadau; cyfeirir atynt fel prosesyddion. Bydd sefydliadau eraill yn gyfrifol i chi'n uniongyrchol am eu defnydd o ddata personol rydyn ni'n ei rannu gyda nhw. Cyfeirir atyn nhw fel rheolyddion. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r rheolyddion dan y ddeddfwriaeth diogelu data roi gwybodaeth ychwanegol i chi am y data personol y maent yn ei gadw amdanoch a sut a pham y maent yn prosesu'r data hwnnw. Mae'n bosibl y rhoddir rhagor o wybodaeth i chi mewn hysbysiad ar wahân neu gellir ei chael gan y cynghorwyr a'r darparwyr gwasanaeth yn uniongyrchol, er enghraifft drwy eu gwefannau.

Pryd bynnag y bydd un o'n hymgynghorwyr neu ddarparwyr gwasanaeth yn gweithredu fel rheolydd ar y cyd â ni mewn perthynas â'ch data personol, oherwydd ein bod yn pennu'r dibenion a'r dulliau o'i brosesu ar y cyd, byddwn yn cytuno â nhw sut y byddwn i gyd yn mynd i fodloni ein rhwymedigaethau priodol ac ar y cyd o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Os hoffech ragor o wybodaeth am sut mae trefniant o'r fath yn gweithio, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Mae'r sefydliadau y gallwn rannu eich data personol â nhw yn cynnwys y cynghorwyr a'r darparwyr gwasanaeth canlynol:

| **Prosesyddion** | **Rheolyddion** |
|---|---|
| • Darparwr taliadau dramor i drosglwyddo taliadau i Aelodau'r Gronfa a buddiolwyr sydd â chyfrifon | • Gweinyddwr – Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>• Darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol – ar hyn o bryd Clerical |

| | |
|---|---|
| y tu allan i'r DU - Convera UK Financial Limited ar hyn o bryd<br>• Cwmnïau argraffu – ADARE SEC ar hyn o bryd<br>• Darparwr meddalwedd pensiynau – Heywood Pension Technologies ar hyn o bryd<br>• Cyflenwyr gwasanaethau TG, cynhyrchu a dosbarthu dogfennau<br>• Ymgynghorydd Hirhoedledd - Club Vita ar hyn o bryd<br>• Porth Hunan Wasanaeth – Heywood Pension Technologies ar hyn o bryd<br>• Darparwyr gwasanaeth integredig, yn hwyluso cysylltiadau at ddangosfwrdd pensiynau - ar hyn o bryd | Medical, Utmost Life a Pensions & Standard Life<br>• Actwari'r Gronfa – ar hyn o bryd Hymans Robertson<br>• Archwiliwr Allanol – Archwilio Cymru ar hyn o bryd<br>• Archwilydd mewnol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar hyn o bryd<br>• Swyddfeydd olrhain ar gyfer sgrinio marwoldeb a chael hyd i aelodau a buddiolwyr – ATMOS ar hyn o bryd<br>• Cronfa ddata Yswiriant Gwladol y CPLIL – (Awdurdod Pensiynau De Swydd Efrog)<br>• Awdurdodau gweinyddu cronfeydd CPLIL eraill (neu eu hasiantiaid, fel gweinyddwyr trydydd parti) ble rydych chi wedi bod yn aelod o gronfa CPLIL arall ac mae angen y wybodaeth i benderfynu'r buddion y mae gennych chi neu eich dibynyddion hawl iddynt<br>• Yr Adran Waith a Phensiynau<br>• Adran Actwari'r Llywodraeth<br>• Swyddfa'r Cabinet – at ddibenion y Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol<br>• CThEF<br>• Llysoedd Cymru a Lloegr – i'r diben o brosesu gorchmynion rhannu pensiwn ar ysgariad<br>• Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau |

Lle'r ydym yn buddsoddi ar ran y Gronfa neu'n ceisio darparu buddion i aelodau'r Gronfa mewn ffyrdd eraill, megis drwy ddefnyddio yswiriant, efallai y bydd angen inni rannu data personol gyda darparwyr buddsoddiadau, yswirwyr a gweithredwyr cwmnïau pensiwn eraill.

O bryd i'w gilydd efallai y byddwn yn darparu peth o'ch data i'ch cyflogwr a'i is-gwmnïau perthnasol (a darpar brynwyr eu busnesau) a chynghorwyr i'r diben o alluogi'r endidau hynny i ddeall cyfrifoldebau a rhwymedigaethau'r cyflogwr ynglŷn â'r Gronfa. Byddai'ch cyflogwr yn gyffredinol yn rheolydd ar y data personol a rennir gydag ef yn yr amgylchiadau hynny. Er enghraifft, lle mae'ch cyflogaeth chi yn ymwneud â darparu gwasanaethau sy'n ddarostyngedig i drefniant darparu o ffynhonnell allanol, gallai'r Awdurdod Gweinyddu ddarparu gwybodaeth am eich buddion pensiwn i'ch cyflogwr ac i ddarpar gynigwyr am y contract hwnnw pan ddaw i ben neu pan gaiff ei adnewyddu.

Mae fframwaith y dangosfwrdd pensiynau'n gofyn i ni rannu data personol o fewn ecosystem y dangosfyrddau. Pan fo aelod yn chwilio am wybodaeth am eu pensiynau ar-lein trwy ddangosfwrdd pensiynau, rydym yn derbyn peth data personol at ddibenion nodi cydweddiad gyda phensiwn yr aelod yn y Gronfa. Mae angen wedyn i ni ddarparu

gwybodaeth pensiynau i ecosystemau'r dangosfwrdd fel y gall gael ei dangos trwy'r dangosfwrdd perthnasol.

Lle gwneir cais neu os ydym o'r farn fod angen rhesymol am hynny, gallwn hefyd ddarparu'ch data i gyrff llywodraeth a sefydliadau datrys anghydfodau a gorfodi'r gyfraith, yn cynnwys y rhai a rhestrir uchod, y Rheoleiddiwr Pensiynau, yr Ombwdsmon Pensiynau a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF). Gallan nhw wedyn ddefnyddio'r data i gyflawni'u swyddogaethau.

Gall y sefydliadau y cyfeirir atynt yn y paragraffau uchod ddefnyddio'r data personol i gyflawni'u swyddogaethau mewn perthynas â'r Gronfa yn ogystal ag ar gyfer modelu ystadegol ac ariannol (megis cyfrifo costau cyfartalog disgwyliedig buddion a chyfraddau marwolaethau) ac at ddibenion cynllunio, gweinyddu busnes a rheoleiddio. Gallant hefyd basio'r data i drydydd partïon eraill (er enghraifft, gall yswirwyr basio data personol i gwmnïau yswiriant eraill i'r diben o ailyswirio), i'r graddau y maent yn ystyried bod gofyn rhesymol am y wybodaeth at ddiben cyfreithlon.

Nid ydym yn defnyddio'ch data personol at ddibenion marchnata ac ni fyddwn yn rhannu'r data hwn ag unrhyw un at ddiben marchnata i chi neu unrhyw fuddiolwr.

**Trosglwyddo gwybodaeth y tu allan i'r DU**

Mewn rhai achosion gallai'r rheiny sy'n derbyn eich data personol fod y tu allan i'r DU. Felly, efallai bydd eich data personol yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r DU i awdurdodaeth nad yw efallai yn cynnig lefel ddiogelu ddigonol fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth y DU

Os digwydd hyn, rhaid rhoi mesurau diogelu ychwanegol ar waith gyda golwg ar ddiogelu eich data yn unol â'r cyfreithiau cymwys. Defnyddiwch y manylion cyswllt isod os ydych am gael rhagor o wybodaeth am y mesurau diogelu sydd ar waith ar hyn o bryd.

**Pa mor hir ydyn ni'n cadw'ch data personol**

Ni fyddwn yn cadw'ch data personol ond cyhyd ag y mae angen inni wneud hynny er mwyn cyflawni'r diben(ion) y casglwyd ef ar ei gyfer a chyn hired wedi hynny ag a allai fod yn ofynnol yn ein barn ni i ddelio ag unrhyw gwestiynau neu gwynion y gallem eu derbyn ynglŷn â gweinyddiad y Gronfa, oni bai ein bod yn dewis cadw'ch data am gyfnod hwy i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y caiff eich data personol ei gadw am:

- y cyfryw gyfnod ag y mae gennych chi (neu unrhyw fuddiolwr sy'n cael buddion ar ôl eich marwolaeth) hawl i fuddion o'r Gronfa ac am gyfnod o 55 mlynedd ar ôl i'r taliadau buddion hynny ddod i ben. Am yr un rheswm, efallai y bydd angen cadw eich data personol hefyd pan fyddwch wedi derbyn trosglwyddiad, neu ad-daliad, o'r Gronfa mewn perthynas â'ch hawl i fuddion.

Pan fyddwch yn ceisio cyrchu gwybodaeth am eich pensiwn, mae'r rheoliadau dangosfwrdd pensiynau'n gofyn i ni gadw mathau gwahanol o wybodaeth (sy'n cynnwys data personol) am gyfnodau penodol, fel disgrifir yn fwy manwl yma:
https://www.pensionsdashboardsprogramme.org.uk/standards/data-retention-schedule

**Eich hawliau**

Mae gennych hawl i weld a chael copi o'r data personol y mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ei ddal amdanoch ac i ofyn i'r Awdurdod Gweinyddu gywiro eich data personol os oes unrhyw wallau neu os nad yw'n gyfredol neu os yw'n anghyflawn. O dan amgylchiadau cyfyngedig iawn, gall fod gennych hawl hefyd i ofyn i'r Awdurdod Gweinyddu gyfyngu'r prosesu ar eich data personol, neu i drosglwyddo neu (mewn amgylchiadau hynod gyfyngedig, megis lle nad oes angen eich data personol mwyach at y diben y mae'n cael ei brosesu ar ei gyfer) ddileu eich data personol. Dylech nodi nad oes rheidrwydd arnom i ddileu eich data personol os oes angen i ni ei brosesu at ddibenion gweinyddu'r Gronfa

Mewn rhai amgylchiadau mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol; er enghraifft, mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol sy'n seiliedig ar fudd y cyhoedd neu fuddiannau cyfreithlon a nodir yn yr adran uchod dan y pennawd *"Y rhan dechnegol*", neu lle mae prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hawliau hyn o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.org.uk neu drwy ei llinell gymorth (0303 123 1113).

Os ydych yn dymuno arfer unrhyw un o'r hawliau hyn neu os oes gennych gwestiynau, gwynion neu bryderon ynglŷn â'r prosesu ar eich data personol, cysylltwch â Gweinyddwr y Gronfa fel y nodir isod neu ein swyddog diogelu data fel y'i nodir yn yr hysbysiad hwn. Gallwch gyflwyno cwyn diogelu data I ni trwy 01495 762200 neu drwy e-bost at dpa@torfaen.gov.uk

Mae gennych hawl hefyd i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd hwn neu weithgareddau prosesu'r Awdurdod Gweinyddu – gallwch wneud hynny drwy'r wefan uchod neu'i llinell gymorth.

Fel yr eglurwyd yn yr adran uchod dan y pennawd "*Sut byddwn ni'n defnyddio'ch data personol*", un o'r rhesymau rydym yn casglu ac yn cadw eich data personol yw er mwyn gweinyddu eich buddion yn y Gronfa. Os na fyddwch yn darparu gwybodaeth rydym yn gofyn amdani, neu os byddwch yn gofyn i'r data personol yr ydym yn ei ddal yn barod gael ei ddileu neu i gyfyngu ar ei brosesu, gallai hyn effeithio ar ein gallu i weinyddu eich buddion, gan gynnwys talu buddion o'r Gronfa. Mewn rhai achosion gallai olygu nad yw'r Awdurdod Gweinyddu yn gallu dechrau talu eich pensiwn neu fod rhaid iddo atal eich pensiwn (os yw eisoes yn cael ei dalu)

## Diweddariadau

Efallai y byddwn yn diweddaru'r hysbysiad hwn o bryd i'w gilydd. Lle'r ydym yn gwneud hyn, byddwn yn hysbysu'r aelodau o'r newidiadau a'r dyddiad pan fydd y newidiadau'n dod i rym.

## Cysylltu â ni

Cysylltwch â gweinyddwr Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) am wybodaeth bellach trwy 01495 766266 neu drwy e-bost: pensions@torfaen.gov.uk

## Swyddog Diogelu Data

Gallwch hefyd gysylltu â'n swyddog diogelu data am wybodaeth Bellach neu os oes gennych gwyn ynglŷn â sut yr ydym wedi trin eich data personol trwy 01495 762200 neu drwy e-bost at dpa@torfaen.gov.uk